

Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (fel ar 30 Mehefin 2024)

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Annibyniaeth a Gwrthrychedd	2
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	2
Cydymffurfio â Safonau Archwilio	3
Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd	3
Casgliad 2023/24	3
Cynllun Archwilio	3
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (<i>Mawrth 2024</i>)	5
Canfyddiadau Gwerth am Arian (<i>Mawrth 2024</i>)	7
Rhaglen Waith 2024/25	7
Gweithgareddau Presennol	7
Adnoddau	9
Cynllun Blynyddol	10
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (<i>Ch1 2024/25</i>)	11
Canfyddiadau Gwerth am Arian (<i>Ch1 2024/25</i>)	13
Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol	13
Gwerth Ychwanegol	13
Perfformiad	14
Cyflawni'r Cynllun Archwilio	15
Argymhellion	15
Casgliad	16
Atodiad A	Statws yr Adroddiad ar 30 Mehefin 2024
Atodiad B	Cynllun Archwilio
Atodiad C	Cartref Plant Falconwood – Crynodeb Archwilio Gweithredol
Atodiad D	Crynodeb o'r Argymhellion

Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae'r adroddiad cynnydd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Mawrth i 30 Mehefin 2024, ac yn dilyn y diweddariadau a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i roi crynodeb o weithgareddau a chanlyniadau archwilio ym mis Mawrth 2023 i gloi'r adrodd ar gyfer 2023/24, wedi'i ddilyn gan amlinelliad o'r gweithgareddau archwilio a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yn Cynllun Archwilio 2024/25.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae'r is-adran Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cwblhaodd yr archwilwyr eu hadolygiadau personol diwedd blwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2024/25. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau o ran Fframwaith Cymwyseddu Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y

cydnabuwyd gwaelodlin gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y Tîm Archwilio Mewnol.

1.4 Cydymffurfio â Safonau Archwilio

Yn flynyddol mae'r Rheolwr Archwilio yn cwblhau adolygiad mewnol yn erbyn Nodyn Cais Llywodraeth Leol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), sy'n dadansoddi gofynion cydymffurfio Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC). Drwy'r adolygiad hwn, a'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sydd ar waith, adroddir cydymffurfiaeth barhaus â'r SAMSC i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau sicrwydd parhaus sydd ar waith i gyflawni ac adrodd am sicrwydd parhaus mewn adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor.

Yn ogystal ag adolygiadau mewnol, mae'r SAMSC yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd cymwys, annibynnol neu gan dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf ei gwblhau a'i arwain gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, o dan arweiniad Prif Archwilydd Cynghorau Sir Fynwy / Casnewydd. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiad rhannol neu lwyr. Cynigiwyd un cam gweithredu dewisol ac fe'i gweithredwyd, yn ymwneud â chyfathrebu cwmpas ac amcanion yr archwiliad ynghyd â'r risg, o fewn allbynnau archwilio.

2. Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

Mae'r crynodeb archwilio canlynol wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn ymwneud â chasgliad Cynllun Archwilio 2023/24, ac yna mae ail ran sy'n ymwneud â'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25, a'r gweithgareddau, adnoddau, canfyddiadau a mesurau perfformiad cysylltiedig yn chwarter un 2024/25.

Casgliad 2023/24

2.1 Cynllun Archwilio 2023/24

Ym mis Mawrth 2023/24, cwblhawyd pedwar ar ddeg o ymgysylltiadau archwilio i o leiaf y cam adroddiad drafft a chwblhawyd archwiliad pellach yn ymwneud â'r flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfodydd fis Ionawr a mis

Mawrth fod yr archwiliadau hyn yn cael eu targedu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir manylion isod.

Ffigur 1. Allbynnau a barn archwilio Mawrth 2024

Rhif	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
1.	Taliadau a Phrosesau Prynu - Profi yn Ystod y Flwyddyn	Effeithiol
2.	Cyflogres ac AD – Profi yn Ystod y Flwyddyn	
3.	Prif Gyfrifyddu	
4.	Diogelwch Cymunedol	
5.	Parhad Busnes	Effeithiol gyda lle i wella
6.	Taliadau Uniongyrchol - Plant ac Oedolion	
7.	Rheoli Digwyddiadau (Castell Caerdydd)	
8.	Goramser Rheoli Gwastraff	
9.	Glanhau Strydoedd	
10.	Ysgol Uwchradd Woodlands	
11.	Ysgol Gynradd Kitchener	Annigonol, angen gwelliant mawr
12.	Cartref Plant Falconwood	Anfodddhaol
Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn'		
13.	Caffael Technoleg Addysg Ysgolion - (adolygiad cynghori)	Adolygiadau System Cynghorol
14.	Rheolaethau Arlwyo Ysgolion - (adolygiad cynghori)	
<i>Adroddiadau wedi'u cwblhau o'r flwyddyn flaenorol</i>		
15.	Canolfan Derbyn Larymau	Effeithiol gyda lle i wella.

Roedd pum archwiliad wedi'u targedu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn a barhaodd i mewn i 2024/25 fel a ganlyn: Rheoli'r Trysorlys, Tîm Dyletswydd Argyfwng, Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Rheoli Risg Newid Hinsawdd.

Mae'r sefyllfa derfynol o ran Cynllun Archwilio 2023/24 a gwybodaeth ehangach a mesurau perfformiad y Tîm Archwilio Mewnol i'w gweld yn fanwl yn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24.

Dangosir y sefyllfa gryno yn y tabl isod: cwblhawyd 53 o ymgysylltiadau archwilio newydd i o leiaf y cam allbwn drafft yn erbyn cynllun gwreiddiol o 85 archwiliad (62%), a chwblhawyd 33 o allbynnau drafft eraill o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cynllun Archwilio yn ymateb i risg ac, yn unol â hynny, cafodd rhai archwiliadau eu hychwanegu, eu blaenoriaethu neu eu gohirio yn

ystod y flwyddyn ariannol, gan ymgysylltu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Dangosir yr archwiliadau a gwblhawyd yn 2023/24 a'r lefelau sicrwydd a roddir yn y tabl isod:

Ffigur 2. Allbynnau a barn archwilio (2023/24)

Statws	Nifer yr allbynnau archwilio	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	24	6	11	4	1	2
Terfynol	62	16	32	3	1	10
CYFANSWM	86	22	43	7	2	12
	53	Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a Gwblhawyd				
	33	Ymgysylltiadau Archwilio a Orffennwyd o 2022/23				

2.2 Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (Mawrth 2024)

Yn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24, mae'r Rheolwr Archwilio wedi barnu bod amgylchedd rheoli'r Cyngor yn 'Effeithiol gyda lle i wella', gan gydnabod bod Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 yn cyflwyno'r sefyllfa wirioneddol a manwl o ran gweithgareddau, perfformiad a barn Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, cyhoeddwyd pedwar adroddiad yn ystod mis Mawrth lle adroddwyd am faterion rheoli penodol, y darperir rhagor o fanylion amdanynt isod.

Mae archwiliad o Gartref Plant Falconwood, a gyhoeddwyd fel drafft yn ystod mis Mawrth 2024 gyda barn 'anfoddhaol', wedi'i gwblhau. I'r perwyl hwnnw, mae'r Adroddiad Cryno Gweithredol wedi'i gynnwys yn Atodiad C er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Adroddiad Cryno Gweithredol wedi'i rannu gydag Aelodau perthnasol y Cabinet a chyda Swyddogion Craffu yn unol â threfniadau adrodd y cytunwyd arnynt. Mae archwiliad dilynol wedi'i gynnwys yng Nghynllun Archwilio drafft 2024/25.

Rhoddodd archwiliad o Ysgol Gynradd Kitchener farn 'annigonol ac angen gwelliant mawr' gan nad oedd gan yr ysgol gofrestr asedau gyfredol, ac ni ellid sicrhau rheolaeth a monitro asedau. Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau llywodraethu'r ysgol wedi dyddio, ac roedd diffyg rheolaeth a goruchwyliaeth dros brynu nwyddau a gwasanaethau oherwydd nad oedd gorchmynion prynu yn cael eu codi'n rheolaidd trwy SIMS. Roedd y diffyg gorchmynion prynu ar SIMS yn golygu na ellid sicrhau bod y wybodaeth am y gyllideb ar SIMS yn gywir gan nad oedd yn cynnwys gwariant ymrwymedig. Ar adeg yr archwiliad, roedd gan yr ysgol ddau gerdyn talu'n

cael eu defnyddio (un cerdyn debyd ac un cerdyn tâl) nad oedd yn unol â chanllawiau'r Cyngor ond a gafodd ei gywiro ers yr ymweliad archwilio cychwynnol. Nid oedd dyletswyddau'n cael eu rhannu ddigon, yn enwedig yn y swyddogaeth incwm lle nodwyd bod pob tasg yn cael ei chyflawni gan un aelod o staff ac ni nodwyd bod unrhyw swyddogion eraill yn gallu cyflenwi pe bai staff yn absennol.

Ystyriodd archwiliad cynghorol o Gaffael Technoleg Addysg Ysgolion y dull corfforaethol o reoli technoleg addysgol ysgolion, sy'n cynnwys prosiectau a mentrau strategol penodol, rheoli cyllid Grant Llywodraeth Cymru, cronfeydd grant canolog a phellach, gwneud penderfyniadau a phrosesau caffael, a'r dull o ddyrannu a rheoli asedau. Tra'n cydnabod gwelliannau diweddar, argymhellodd yr archwiliad ddatblygiadau pellach mewn tryloywder a rheolaeth gyllidebol, a gwelliannau mewn trefniadau penderfynu, rheoli a monitro. Roedd nifer o gontractau ar waith ar gyfer rheoli gwahanol feysydd o wariant TG, ond nid oedd modd cael mynediad i'r rhain gan y maes gwasanaeth yn ystod yr archwiliad ac, ar ôl derbyn yr hyn a oedd yn cael ei ddal gan Comisiynu a Chaffael, nodwyd bylchau mewn cwrpas contractau, cyflawnrwydd dogfennaeth gaffael a phrosesau awdurdodi. Roedd bwch yng nghyflawnrwydd gwybodaeth am yr offer TG a gedwir mewn ysgolion uwchradd cyn i'r gorchymyn blynyddol gael ei godi drwy Grant Llywodraeth Cymru, sy'n effeithio ar y gallu i lywio'r penderfyniad caffael yn llawn ar sail anghenion. Roedd nifer o reolaethau ar waith i ddiogelu offer TG drwy ddefnyddio technoleg, ond roedd angen adolygu'r trefniadau ar gyfer storio asedau TG i sicrhau bod offer yn ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu cyn belled ag y bo modd, ac ystyriwyd bod angen cyflwyno system rheoli stocrestr ffurfiol.

Cynhaliodd archwiliad cynghorol o Reolaethau Arlwyo Ysgolion adolygiad ar sail systemau o weithgareddau'r gwasanaeth arlwyo sy'n darparu gweithgareddau a fasnechir i 101 o ysgolion cynradd / arbennig ac 11 ysgol uwchradd. Mae'r gwasanaeth yn goruchwylio'r ddarpariaeth arlwyo lawn, gan gynnwys rheoli ceginau ysgol, staffio, cynnyrch bwyd, y systemau archebu a thalu, y cymhorthdal llaeth ar gyfer llaeth ysgol am ddim a phrydau ysgol am ddim. Yng nghydestun gorwariant net arwyddocaol, ystyriodd yr archwiliad yr angen am fwy o safoni, ac i ddeall yn sylfaenol y gost o ddarparu gwasanaethau gyda chymorth cyfrifeg i lywio penderfyniadau codi tâl. Roedd bylchau yng nghofnodion caffael a ddarparwyd i'w harchwilio, a chofnodion i ddangos ymgysylltiad uwch swyddogion ac Aelodau'r Cabinet o ran caffael uwchraddiadau ceginau ysgol. Nid oedd prosesau caffael ar gyfer cynnyrch ceginau ysgol yn cael eu rheoli'n ddigonol; yn cael eu gwneud trwy gardiau caffael, yn hytrach na systemau archebu safonol. Roedd angen cwblhau nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac Asesiad Effaith Cwmwl

ar gyfer technoleg a ddefnyddir, ac nid oedd ardystiad cydymffurfiaeth Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cerdyn Talu (DCT) wedi'i dderbyn gan ddarparwr ar adeg yr adolygiad ac roedd angen ei ddychwelyd i gael sicrwydd parhaus o ran cydymffurfiaeth â'r gofynion. Roedd angen datblygu systemau a threfniadau rheoli asedau mewn perthynas ag offer ceginau a stoc ysgolion i roi'r sicrwydd angenrheidiol.

2.3 Canfyddiadau Gwerth am Arian (*Mawrth 2024*)

Ni chwblhawyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gan y mwyafrif helaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, y gellir darparu lefel sicrwydd foddhaol gyffredinol ohono ar gyfer y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, o fewn archwiliad â barn sicrwydd is neu archwiliad cynghorol gydag argymhellion blaenoriaeth uchel, byddai bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael y sylw priodol o ran cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Rhaglen Waith - 2024/25

2.4 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod chwarter un 2024/25, blaenoriaethau a dull gweithredu'r Tîm Archwilio Mewnol oedd darparu cyfuniad o arweiniad a chefnogaeth reoli, a dechrau cyflawni ymrwymïadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol a newidiadau i brosesau i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Un o'r gweithgareddau allweddol yn ystod chwarter un 2024/25 oedd adolygu a diweddarau'r Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) ar gyfer archwilio holl ysgolion Caerdydd, ac ymgysylltu â Phenaethiaid a Llywodraethwyr. Mae'r broses yn cynnwys ysgolion yn cwblhau hunanasesiad awtomataidd sy'n cwmpasu ystod o lywodraethiant ariannol ac anariannol, a materion rheoli mewnol, ac yn cyflwyno'r ffurflen a'r dogfennau ategol i archwilio mewnol i'w hadolygu. Cyhoeddir y dogfennau HRhR ddechrau mis Gorffennaf, ac mae disgwyl i'r ymatebion gael eu cyflwyno yn ystod mis Hydref 2024. Ar ôl eu dychwelyd, bydd ymatebion yn cael eu hadolygu,

darperir cyngor ac arweiniad, a dewisir sampl o 20 ysgol ar gyfer ymweliad a phroffion wedi'u targedu i wirio'r honiadau a wnaed a chamau hunanasesu sy'n deillio o'r asesiad.

Ar derfyn cynlluniedig Cynllun Archwilio 2023/24, mae nifer o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd wedi dechrau o Gynllun Archwilio 2024/25. Cafodd unrhyw archwiliadau a dargedwyd i'w cwblhau yn 2023/24, ond a oedd yn mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn, eu cario ymlaen i barhau yn ystod chwarter un 2024/25.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'r statws adrodd yn y flwyddyn bresennol tan 30 Mehefin 2024, lle y cwblhawyd 9 ymgysylltiad archwilio newydd hyd at y cam allbwn drafft o leiaf a gorfennwyd 11 ymgysylltiad archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod.

Ffigur 3. Allbynnau a barn archwilio (ar 30 Mehefin 2024)

Statws	Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	5	0	3	2	0	0
Terfynol	15	4	5	2	1	3
CYFANSWM	20	4	8	4	1	3
	9	Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd				
	11	Ymgysylltiadau Archwilio a orffennwyd o 2023/24				

Yn y flwyddyn ariannol bresennol hyd yma, cyhoeddwyd dau allbwn archwilio drafft gyda barn 'annigonol ac angen gwelliant mawr'. Ceir rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r archwiliadau hyn yn Adran 2.7 – Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg.

Ffigur 4. 2024/25 Allbynnau a safbwyntiau archwilio (ar 30 Mehefin 2024)

Rhif	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
1.	Camau Dilynol - Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog	Effeithiol
2.	Rheoli risg Newid Hinsawdd	Effeithiol gyda lle i wella
3.	Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	
4.	Pridiannau Tir	
5.	Ysgol Gynradd Pentre-baen	Annigonol, angen gwelliant mawr
6.	Siop Sbwriel Caban - Rheoli Contract	

Rhif	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn'		
7.	Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Ymgynghoriaeth, ardystiad, cyngor ac arweiniad
8.	Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
9.	Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	
Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol		
10.	Rheoli Perfformiad - Pobl a Chymunedau	Effeithiol
11.	Prif Gyfrifyddu	
12.	Taliadau a Phrosesau Prynu	
13.	Parhad Busnes	Effeithiol gyda lle i wella
14.	Copiâu Wrth Gefn ac Adfer Data	
15.	Ysgol Uwchradd Cathays	
16.	Ysgol Uwchradd Woodlands	
17.	Rheoli Digwyddiadau (Cyngor Caerdydd)	
18.	Seiberddiogelwch (Ysgolion) – Technoleg a Reolir gan TGCh	Annigonol, angen gwelliant mawr
19.	Ysgol Gynradd Kitchener	
20.	Cartref Plant Falconwood	Anfoddhaol

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 5. Archwiliadau a gwblhawyd heb farn sicrwydd (ar 30 Mehefin 2024)

Archwilio	Sylwadau
Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2023/24
Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A**.

2.5 Adnoddau

Ni fu unrhyw newidiadau i'r sefydliad yn ystod y cyfnod adrodd, gyda'r holl swyddi wedi'u llenwi. Roedd rhai achosion o salwch yn y Tîm yn ystod chwarter un, un wedi'i gynrychioli gan aelod o'r tîm yn dychwelyd o salwch hirdymor, a rhai achosion eraill o absenoldebau salwch byrdymor yn y Tîm. Ar ddiwedd y chwarter bydd Hyfforddai CIPFA yn gadael y Tîm ar gyfer ei leoliad nesaf gyda

Cyllid - dymunwn yn dda iddo ar ôl ei amser gwerthfawr yn Archwilio, a byddwn yn croesawu ein Hyfforddai CIPFA nesaf ar gyfer eu lleoliad archwilio o fis Medi ymlaen.

Gan fod pob archwilydd gweithredol a'r cynorthwy-ydd archwilio yn cofnodi'r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd data taflenni amser yn cynnwys 368 diwrnod taladwy yn chwarter un, yn erbyn cynllun pro-rata o 374 diwrnod (cyfrifir y diwrnodau pro-rata fel cyfartaledd chwarterol hafal o ddiwrnodau sydd ar gael am y flwyddyn gyfan).

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae gan un Archwilydd wedi derbyn cyllid i astudio'r Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA.

2.6 Cynllun Blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Ar hyn o bryd, fe'i cynghorwyd o'r sefyllfa yn erbyn Cynllun Archwilio 2023/24 gan gynnwys y targedau archwilio ar gyfer gweddill y chwarter. Rhoddwyd manylion hefyd ynghylch sut y byddai sicrwydd yn cael ei gyflawni ar gyfer ymgysylltiadau archwilio arfaethedig na fyddai'n cael eu cwblhau o Gynllun Archwilio 2023/24.

Mae Cynllun Archwilio 2024/25 i'w weld yn Atodiad B. Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Mae un archwiliad cynghorol, sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Arlwyo yng Nghastell Caerdydd, wedi'i ychwanegu at y Cynllun ar gais y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, dan ddirprwyaeth y Rheolwr Archwilio, i gytuno ar ymgysylltiad archwilio newydd o ddim mwy na 10 diwrnod cynlluniedig. Mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu'n ddiweddar gan Arlwyo Caerdydd, ac yn unol â hynny, mae'r Cyfarwyddwr wedi gofyn am adolygiad system o weithrediadau a threfniadau rheoli mewnol. Ni fydd y Rheolwr Archwilio yn rhan o'r archwiliad, oherwydd arferai perthynas iddo weithio yn y Castell. Trefnwyd i'r Pennaeth Cyllid oruchwylio'r archwiliad hwn.

Er gwybodaeth i'r pwyllgor, amlygir yr holl archwiliadau â statws drafft ar ddiwedd 2023/24 yn 'llwyd' er mwyn gallu tracio'r gwaith o gwblhau'r archwiliadau hyn, tra'n darparu gwahaniad gweladwy o'r ymgysylltiadau archwilio a geir yng Nghynllun Archwilio 2024/25.

Mae'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Archwilio 2024/25 yn gymesur is na'r hyn a dargedwyd yn chwarter un, y dangosir y sefyllfa ar ei gyfer yn adran 3.2, 'perfformiad'.

- Nid yw'n anghyffredin i berfformiad fod yn is yn chwarter un, gan y gweithir ar bortffolio newydd o ymgysylltiadau archwilio, y mae nifer ohonynt wedi'u datblygu'n dda ond heb eu cwblhau ar ddiwedd y chwarter.
- Mae mwy o archwiliadau yn y cynllun eleni (109, o gymharu ag 85 yn 2023/24). Ugain ysgol fydd yn cael eu samplu ar gyfer profion arbennig fel rhan o'r archwiliadau Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR). Bydd yr archwiliadau dilysu byr a llym hyn yn cael eu cynnal yn ystod chwarter tri a phedwar a byddant yn cynyddu cyfran y cynllun a gyflawnwyd.
- Mae'r tîm wedi treulio amser yn paratoi ac yn ymgysylltu ag ysgolion ar y dull Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR) yn ystod y chwarter.

Caiff archwiliadau eu dyrannu ar sail sy'n darparu'r sicrwydd a'r gwerth mwyaf, gan gyfyngu ar unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2024/25.

2.7 Canfyddiadau critigol neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg (Ch1 2024/25)

Yn ystod chwarter un, mae dau allbwn archwilio drafft wedi cael eu cyhoeddi gyda barn 'annigonol ac angen gwelliant mawr', y darperir manylion am y canfyddiadau perthnasol ar eu cyfer yn y paragraffau canlynol.

Roedd archwiliad rheoli contractau yn siop sbwriel y Caban sy'n cael ei rhedeg gan elusen yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Ffordd Lamby yn cydnabod gwerth y fenter. Mae'n cynnwys siop y Caban yn ailwerthu eitemau a roddwyd gan drigolion Caerdydd wrth ollwng gwastraff y cartref yn CAGC, i leihau gwastraff a galluogi'r gymuned i brynu'r eitemau hyn am brisiau isel, gyda threfniant rhannu elw / colled o 50%.

Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o sylw i fanylion wrth weinyddu'r contract a gwella'r drefn fonitro a rheoli. Mae'r trefniant yn gwneud elw bach iawn ac mae'n gost niwtral i bob pwrpas,

ond mae trosiant yn faterol berthnasol ac yn cwmpasu ystod o gostau gweithredu a chostau cyflogaeth. Roedd monitro contractau yn digwydd ar lefel gryno, ac ystyrir bod angen sicrwydd lefel trafodiadol. Mae'r contract yn cynnwys nifer o ddarpariaethau adrodd a monitro nad oeddent yn cael eu dilyn, er bod y wybodaeth ar gael drwy drafod y systemau oedd ar waith. Cynghorwyd rheolwyr i adolygu gofynion adrodd ar y contractau, a'r risgiau a'r materion ehangach, a chyflwyno dull rheolaidd, manwl a strwythuredig i oruchwylio gweithrediadau'r contract a pherfformiad.

Roedd yr elusen yn agored a pharod yn yr archwiliad, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth anffodus, ond mae angen i'r rheolwyr fwrw ymlaen â threfniadau rheoli contractau gwell yn y dyfodol. Roedd tystiolaeth o fanteision cymunedol yn deillio o'r fenter, ond y contractwr oedd yn arwain y rhain, ac ystyrir y dylai'r Cyngor ymgysylltu'n weithredol â Wastesavers yn y dull o ymgysylltu â'r gymuned a gwirfoddoli, a sicrhau'r buddion cymdeithasol ehangach mwyaf posibl (ymwybyddiaeth, addysg, ymgysylltu â phlant ac ysgolion ac ati) wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol. O ystyried natur y cyfleuster, mae nifer o faterion llywodraethu a rheoli anariannol sy'n gofyn am oruchwyliaeth, yn ymwneud ag yswiriant ac iechyd a diogelwch er enghraifft. Archwiliwyd y rhain gyda swyddogion arweiniol yn ystod yr archwiliad, ac mae angen i'r rheolwyr fynd i'r afael â rhai mân faterion.

Cododd archwiliad o ysgol Gynradd Pentre-baen o gais i'r Cadeirydd ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i'r ysgol. Dechreuodd Pennaeth yr ysgol yn ei swydd yn y flwyddyn academiaidd bresennol, ac mae wedi paratoi a diweddarau nifer o bolisiau ers ei benodi, ond nodwyd rhai bylchau ac mae angen i Lywodraethwyr sefydlu mecanwaith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau statudol yn cael eu hadolygu, eu hawdurdodi a'u cyhoeddi'n briodol. Ar lefel weithredol, mae rheolaeth ariannol gyffredinol yn gofyn am oruchwyliaeth well gan y Pennaeth a pherchnogaeth well am benderfyniadau a wneir. Nid oedd lefel yr oruchwyliaeth gan y Pennaeth blaenorol a'r Corff Llywodraethu bryd hynny yn glir.

Mae'r adroddiad yn codi nifer o feysydd i dalu sylw iddynt yn ymwneud â chofnodi gweithgareddau ysgol trafodiadol, a rhoi cyfrif amdanynt. Roedd angen rhai diweddariadau i sicrhau bod dyletswyddau mewn prosesau ariannol yn cael eu gwahanu, mae angen proses stocrestr i gofnodi a rhoi cyfrif am asedau'r ysgol, ac mae angen goruchwyliaeth glir o weinyddiaeth cronfa breifat yr ysgol, nad oedd wedi'i harchwilio ers nifer o flynyddoedd. O ran caffael, mae angen cadw cofnodion llawn o brosesau gwahodd, asesu a dyfarnu contractau ac mae angen rhywfaint o welliant ar brosesau caffael, treuliau a chardiau prynu.

2.8 Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch1 2024/25)

Ni chwblhawyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gan y mwyafrif

helaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am

arian, y gellir darparu lefel sicrwydd foddhaol gyffredinol ohono ar gyfer y

cyfnod adrodd. Fodd bynnag, o fewn archwiliad â barn sicrwydd is neu archwiliad cynghorol gydag argymhellion blaenoriaeth uchel, byddai bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael y sylw priodol o ran cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

3. Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

3.1 Gwerth Ychwanegol

Cynhaliwyd cyfarfodydd Perthnasoedd Rheolwyr gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r cynllun archwilio yn chwarter pedwar 2023/24. Yna cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd yn chwarter un 2024/25, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio ymgysylltiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol gyda boddhad o 100% a chyda 88% o gleientiaid yn sgorio pob maes o'u harchwiliad fel da neu ardderchog. Dim ond un cleient a nododd nad oedd eu harchwiliad wedi ychwanegu gwerth. Cymerwyd camau dilynol ac roedd hyn yn ymwneud â theimladau am rai sgiliau archwilio meddalach sydd wedi cael eu trafod gyda'r archwilydd fel rhan o'i ddatblygiad parhaus.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (ar 30 Mehefin 2024), gwnaed 54 o argymhellion, y cytunwyd ar 2 ohonynt drwy adroddiad terfynol. Mae'r holl argymhellion eraill yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio trwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 6. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

Sgôr	Argymhellion a wnaed	Argymhellion a gytunwyd	Argymhellion sy'n cael eu hystyried
Coch	3	0	3
Coch / oren	24	0	24
Oren / gwyrdd	25	2	23
Gwyrdd	2	0	2
CYFANSWM	54	2	52

3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.4 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau a dull y Tîm Archwilio Mewnol yn ystod chwarter un oedd darparu cyfuniad o arweiniad a chymorth rheoli, a dechrau cyflawni ymrwymïadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Ystyrir bod y dangosyddion perfformiad archwilio a ddefnyddiwyd yn 2023/24 yn parhau i roi mesur effeithiol o gydrannau craidd darparu gwasanaeth archwilio effeithiol. Yr unig newid arfaethedig yw cynnydd yn nifer cyfartalog yr archwiliadau terfynol fesul CALL o darged o 8 i 9. Y rheswm am hyn yw bod angen llai o ddiwrnodau archwilio ar gyfer archwiliadau arddull HRhR yr ysgolion yn y Cynllun ar gyfer ysgolion eleni nag archwiliad arferol, ac felly dylid cwblhau nifer fwy o archwiliadau yn gyffredinol fesul archwilydd o gymharu â'r llynedd. Mae Ffigur 7 yn cynnwys y dangosyddion a'r targedau perfformiad arfaethedig ar gyfer 2024/25, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer 2023/24 i'w hystyried a sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ar ddechrau'r flwyddyn, pennwyd targed arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar 70% a'i integreiddio i'r prosesau cynllunio archwilio a rheoli perfformiad. Ystyrir bod y targed yn ymestyn ac yn gyraeddadwy, ac amlinellir y prif resymau dros lithro yn erbyn y mesur hwn yn ystod chwarter un yn 2.6 ('Cynllun Blynyddol').

Mae nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, fel y dangosir yn ffigur 4, ond mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer yr archwiliadau a gwblheir fesul archwilydd. Bydd sylw yn parhau i gael ei roi i orffen adroddiadau archwilio drafft mewn modd amserol.

Cyhoeddwyd pob adroddiad drafft o fewn pedair wythnos i gwblhau gwaith maes archwilio yn y flwyddyn hyd yma, a rhoddir sylw i gynnal perfformiad uchel yn y maes hwn.

Mae Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cymryd diddordeb penodol mewn perfformiad yn erbyn canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, sydd wedi bod yn is na'r targed ers nifer o flynyddoedd. Cynigir targed o 80% ar gyfer 2024/25, sy'n cynrychioli disgwyliad parhaus o gyflawniad uchel ar y camau rheoli y cytunwyd arnynt, a gwelliant disgwyliedig i berfformiad cyfarwyddiaethau o 2023/24. Nid yw'r mesur perfformiad wedi'i gyflawni yn chwarter un a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar gyfarfodydd rheoli perthnasoedd archwilio ac ymgysylltu â'r UDRh.

Ffigur 7. Perfformiad yn erbyn targedau 2024/25 (hyd yma)

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad 2023/24	Targed 2024/25	Canlyniad Ch1
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	62%	70%	8%
Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALI	131	150	37
Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALI	7.93	9	1.67
Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos	96%	90%	100%
Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	74%	80%	76%

3.3 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

